**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 16 Mawrth 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|
| P Downing | L V Walton |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Annie Davies | Swyddog Trwyddedu |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Rachel Loosemore | Arweinydd Gweithredol, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Nick Bailey - Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, Heddlu De Cymru
Heddwas Paul Jones - Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, Heddlu De Cymru

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Gweithdrefn Is-bwyllgorau Trwyddedu Statudol (er gwybodaeth)

Cyflwynodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor y Weithdrefn Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol, er gwybodaeth.

## 3 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 4 Deddf Trwyddedu 2003 - Adran 37 - Cais i Amrywio Trwydded i Nodi Unigolyn fel Goruchwyliwr Mangre - Rileys American Pool and Snooker, 34 Castle Street, Abertawe SA1 1HZ

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl ddydd Llun 13 Mawrth 2023.

Trafododd yr Aelodau'r broses o ymgeiswyr yn tynnu ceisiadau'n ôl ac y dylid annog ymgeiswyr yn y dyfodol i ddod i gyfarfod y pwyllgor yn yr amgylchiadau hyn i esbonio'r rhesymau dros dynnu'r cais yn ôl a/neu dros dynnu'r cais yn ôl mor hwyr.

**Penderfynwyd** nodi bod y cais wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.08am

**Cadeirydd**